

Cyngor Cymuned Bodedern



Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd
ar lein drwy Zoom Nos Lun, 25 Ionawr 2021 am 7 yr hwyr.

1. Croeso ac ymddiheuriadau

Presennol: B Elin **BE**, J Ferry **JF**, B Hughes **BH**, E Jones **EJ**, OG Roberts **OGR**,
JA Roberts **cadeirydd**, RW Owen **clerc**. Ymddiheuriadau: **LJ, VO, EABT**.

2. Datgan Diddordeb: Dim

3. Arwyddo cofnodion Tachwedd 2020

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir. **JF** yn cynnig, **OGR** yn eilio.

4. Materion sy'n codi

4.1 Derbyniwyd gadarnhad gan CSYM na fyddai cost i'r Cyngor Cymuned am ail leoli'r polyn ar lon Dalar.

4.2 Derbyniwyd gadarnhad gan CSYM bydd arwydd newydd Bron y Graig yn cael ei ail osod.

4.3 Derbyniwyd gadarnhad gan CSYM eu bod yn trefnu arolygiad o'r sefyllfa ger mynedfa Maes Edeyrn cyn gwneud penderfyniad ynglyn a gosod llinellau melyn.

4.4 Derbyniwyd gadarnhad gan CSYM fod y twmpathau arafu traffic yn Bron y Graig wedi eu tynnu wrth ail wynebu'r lon, ac ni byddent yn cael eu ail osod fel yw'r polisi. Y clerc i gysylltu yn ol a CSYM yn datgan anfodlonrwydd gyda'r ymateb, ac i fynegi pryderon y cyngor for gor yrru dychrynlyd ar y lon.

4.5 Nowyd fod gwaith atgyweirio wal y fynwent wedi cwblhau. Y clerc i gysylltu a'r contractwyr i drefnu'r gwaith nesaf.

4.6 Cytunwyd i ohurio unwaith eto rhannu arian David Williams oherwydd y rheolau yn ymwneud a Covid 19.

5. Deddf Cynllunio a Gwlad a Thref: I dderbyn unrhyw sylwadau ar geisiadau cynllunio.

Dim ceisiadau.

6. Praesept 2021-22

Cytunwyd osod y praesept yn £14,000 (un deg pedwar mil)

7. Gohebiath i'w adolygu

Dim



Cyngor Cymuned Bodedern



8. Taliadau i'w gwneud – Cytunwyd i wneud y taliadau canlynol. (*Yn unol a Rheol 12 o'r Rheolau Sefydlog*)

8.1 Nigel Williams Torri'r Parc £350.00 Rhif sic: 200100

9. Eitemau a ddaeth i sylw'r Cyngor gan y Cynghorwyr.

9.1 **OGR** yn nodi fod y fynwent yn edrych yn daclus yn dilyn y gwaith atgyweirio.

9.2 **JF** yn mynegi pryder ynglyn a chyflwr y lonydd yn y pentref, yn bennaf rhwng Bron y Graig a'r fynwent. Y clerch i gysylltu a CSYM.

9.3 **EJ** yn mynegi pryder ynglyn a chyflwr y lon o Bresaddfed tuag at Llyn Llywenan. Y clerch i gysylltu a CSYM.

9.4 **Y cadeirydd** yn mynegi pryder ynglyn a sbwriel o amgylch y pentref, yn bennaf ar y lon tuag at Dalar, o'r pentref am Cymunod ac Lon Dywyll. Y clerch i gysylltu a CSYM.

9.5 Nodwyd fod gwter ar y lon o groeslon Cae Meirch wedi llenwi gyda dwr ac yn creu llifogydd. Y clerch i gysylltu a CSYM.

9.6 Y fainc wedi mynd o'r fynwent i'w thrin, y clerch yn disgwyl cadarnhad os oes modd ei thrin neu wedi pydru gormod.

9.7 Y clerch i gysylltu a Mon Grass Cutting ynglyn a torri'r mieri ar y wal yn y fynwent.

9.8 Pridd wedi ei adael yng nghanol tir y fynwent- y clerch i wneud ymholiadau o ble mae wedi dod.

10. Dyddiad cyfarfod nesaf.

22 Chwefror 2021.



Clerch/ Clerk:
Ms. Rhian Wyn Owen,
Rhoscryman Bach, Llanfairynghornwy, LL65 4LS.

Ffôn dydd / Day tel: (01407) 740 940
Symudol / mobile: 07802 754 187
cyngorcymunedbodedern@outlook.com